

**COMPARTMENTAU  
I DDIOGELU RHAG  
FFLIW ADAR A CHLEFYD NEWCASTLE  
MEWN CWMNIAU MAGU DOFEDNOD  
YM MHRYDAIN FAWR**

**CRYNODEB O'R RHEOLAU**

**AR GYFER COMPARTMENTAU MAGU DOFEDNOD YM  
MHRYDAIN FAWR**

Cod Iechyd Anifeiliaid Daearol OIE, Rhifyn 2008, Erthygl 4.4.1.:  
*“Compartment means an animal subpopulation contained within one or more establishments under a common biosecurity management system with a distinct health status with respect to specific diseases for which required surveillance, control and biosecurity measures have been applied for the purpose of international trade”*

Cyfarwydddeb Cyngor yr UE 2005/94/EC, Erthygl 2. 11.:

*“ 'Poultry compartment' or 'other captive birds compartment' means a holding or holdings under a common biosecurity management system containing a poultry or other captive birds sub-population with a distinct health status with respect to avian influenza subjected to appropriate surveillance, control and biosecurity measures’ ”.*

## **CRYNODEB O'R RHEOLAU AR GYFER COMPARTMENT MAGU DOFEDNOD**

### **RHAN 1 AMODAU CYFFREDINOL**

- 1.1 Mae'r rheolau hyn yn cydymffurfio â rheolau compartment yr OIE, fel y nodir yng Nghod Iechyd Anifeiliaid Daearol OIE (rhifyn 2008), penodau 4.3. a 4.4.
- 1.2 Mae'r rheolau hyn hefyd yn cydymffurfio â Rheoliad xxxx/2009 yr UE, sy'n gosod amodau ar gyfer cymeradwyo compartmentau ar gyfer dofednod. Fodd bynnag maent yn ychwanegu rhai cyfarwyddiadau a manylion penodol i'r rheolau hynny, ac felly cyfeirir atynt fel 'Safon Well Prydain Fawr'.
- 1.3 Rhaid i'r cwmni sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth fel compartment ym Mhrydain Fawr ('Y Cwmni') gael ei bencadlys gweinyddol ym Mhrydain Fawr (Prydain).
- 1.4 Rhaid i bob safle fferm heidiau a deorfa i'w gynnwys yn y compartment fod wedi ei leoli ym Mhrydain.
- 1.5 Rhaid i bob safle sydd i'w gynnwys yn y compartment fod o dan reolaeth lawn y Cwmni. Rhaid i'r safle fod naill ai yn eiddo uniongyrchol i'r Cwmni, neu'n ddarostyngedig i gontract rheoli manwl yn rhoi rheolaeth lawn o'r safle i'r Cwmni.
- 1.6 Ar adeg y cais rhaid i'r Cwmni ddarparu ei asesiad Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) ei hun ar gyfer ei weithrediadau. Rhaid i'r Cwmni hefyd ddarparu ei gynllun bioddiogelwch manwl ei hun, ac organogram yn dangos perthynas pob safle y mae'n ceisio statws compartment iddynt.
- 1.7 Rhaid i'r Cwmni fod wedi bod yn cynnal gweithdrefnau amddiffyn a gwylidwraeth penodol ar gyfer ffliw adar ym mhob un o'r safleoedd yn y compartment arfaethedig am o leiaf 6 mis cyn y gymeradwyaeth.

- 1.8 Cyn arolygiad gan yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol (yr Asiantaeth), yn gweithredu fel asiant awdurdodedig Defra, rhaid i'r Cwmni ddarparu ei ddogfennau protocol rheoli ei hun, fel y rhestrir yn rhan 2 y Crynodeb hwn o'r Rheolau.
- 1.9 Bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am asesu protocolau rheoli'r Cwmni, ac am gynnal arolygiadau o safle pob un safle compartment unigol. Os bydd canlyniad yr asesiadau ac arolygiadau hyn yn foddhaol bydd Defra yn cyhoeddi tystysgrif i'r Cwmni yn cadarnhau bod ei statws compartment wedi'i gymeradwyo ar gyfer y safle a nodwyd.

## **RHAN 2: PROTOCOLAU RHEOLI'R CWMNI**

- 2.1 Yn unol â Chod Iechyd Anifeiliaid Daearol OIE (2008), penodau 4.3. a 4.4., rhaid i'r cwmni lunio protocolau rheoli, gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod milfeddygol Gwladol neu ei asiant awdurdodedig.
- 2.2 Mae'r protocolau hyn yn cynrychioli agweddau ar weithrediadau'r cwmni lle mae'r risg mwyaf o gyflwyno neu ledaenu fflw adar/clefyd Newcastle. O ganlyniad, gellir eu hystyried yn bwyntiau rheoli critigol (PRhC).
- 2.3 Mae'n ofynnol bod y protocolau'n cwmpasu'r agweddau canlynol: (Nodir manylion gofynnol cynnwys hanfodol pob protocol mewn dogfen ar wahân i hon)

Deunydd Sarn: Cynhyrchu, Cludo, Storio a Thrin  
Diheintio'r Cytiau Adar (Ffermydd Heidiau)  
Diheintio'r Ardaloedd Mewnol ac Offer Sefydlog (Deorfeydd)  
Diheintio Cerbydau'r Cwmni  
Diheintio'r Offer y Gellir eu Defnyddio Eto  
Porthiant: Cynhyrchu, Cludo, Storio a Thrin  
Cyfnodau o risg uwch: rhagofalon ychwanegol  
Profion Labordai: ar gyfer monitro heidiau fel mater o drefn  
Mewnbynau Amrywiol: Cynhyrchu, Cludo, Storio a Thrin  
Monitro Cynhyrchu a Marwolaethau  
Safleoedd Aml-oedran: Ychwanegu neu Symud Adar  
Safleoedd aml-adeilad: cyfyngiadau ar symudiadau staff  
Deunyddiau Pecynnu: Cynhyrchu, Storio a Defnyddio  
Personél: Rhagofalon Cyswllt ag Adar a Chyfyngiadau Mynediad  
Cwarantîn ar gyfer Wyau neu Adar o'r Tu Allan i'r Compartment  
Rheoli cnofilod  
Staff: Hyfforddiant a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol  
Cyfyngiadau Mynediad i Gerbydau  
Cyfyngiadau ar Adar Gwyllt: Gwahardd o Safleoedd

## **RHAN 3. DARPARIAETHAU STRWYTHUROL A RHEOLI**

Bydd yr Asiantaeth, yn gweithredu fel asiant awdurdodedig Defra, yn arolygu pob safle yn y cais i gadarnhau y darperir pob un o'r eitemau hyn yn foddhaol:

### **ASESIAD FFISEGOL O'R SAFLE**

- 3.1 Ni ddylai'r safle fod ger unrhyw fenter dofednod fasnachol arall. Os oes un o fewn 400 metr, rhaid sicrhau y darperir rhagofalon sy'n addas i'r asesiad risg.
- 3.2 Ni ddylai'r lleoliad fod yn agos at unrhyw ddŵr agored a allai ddenu adar y dŵr gwyllt. Os oes un o fewn 400 metr, rhaid sicrhau y darperir rhagofalon sy'n addas i'r asesiad risg.
- 3.3 Ni ddylai'r lleoliad fod yn agos at unrhyw ffynhonnell porthiant agored (safle tirlenwi, fferm foch awyr agored ac ati) a allai ddenu nifer fawr o adar gwyllt. Ni ddylid gweld olion crynadau mawr o adar gwyllt ar y safle nac yn agos ato. Os oes un o fewn 400 metr, rhaid sicrhau y darperir rhagofalon sy'n addas i'r asesiad risg.
- 3.4 Rhaid cael ffens ddiogelwch gadarn i reoli mynediad personél a cherbydau.
- 3.5 Rhaid cael gatiau i'r mynediad cerbydau a'u cloi.
- 3.6 Dylai mynediad personél i'r ardal fioggiogelwch ond fod yn bosibl drwy rwystr hylendid lle mae cawod corff cyfan a newid dillad yn orfodol.
- 3.7 Rhaid i ddeunyddiau'r adeiladau fod yn gadarn, yn atal lleithder, ac yn gallu cael eu diheintio.
- 3.8 Os oes mwy nag un adeilad ar y safle ac ni chânt eu cysylltu gan gynteddau sydd wedi'u hamgáu, rhaid bod trefniadau hylendid ar wahân wrth fynediad pob un o'r adeiladau.
- 3.9 Rhaid cael palmant concriid wrth bob adeilad ar y safle, yn benodol yn gorchuddio mynedfa ac allanfa gwaith pob adeilad, a'r ardaloedd cerdded rhwng yr adeiladau.

### **STAFF AC YMWELWYR**

- 3.10 Rhaid ei gwneud yn amhosibl i aelodau o staff neu ymwelwyr fynd i mewn i ardal fewnol bioggiogelwch uchel heb fynd drwy rwystr hylendid.
- 3.11 Rhaid i'r rwystr hylendid ddarparu dilyniant ar gyfer tynnu dillad allanol, cawod corff cyflawn, a gwisgo dillad ac esgidiau ffres dan do a ddarperir gan y safle.
- 3.12 Rhaid cadw cofnod ar ffurf barhaol a hygyrch o'r holl bersonél (aelodau o staff ac ymwelwyr) sy'n cael mynediad i'r safle.

- 3.13 Rhaid i staff ac ymwelwyr lofnodi datganiad yn nodi nad ydynt wedi dod i gysylltiad ag unrhyw ddofednod nac adar hobi neu anwes yn ystod y 72 awr cyn eu hymweliad â'r safle.
- 3.14 Rhaid i bob aelod o staff gael hyfforddiant sylfaenol am egwyddorion bioddiogelwch ac arferion HACCP.
- 3.15 Rhaid darparu Gweithdrefn Weithredu Safonol ysgrifenedig yn ymwneud â'i faes gwaith i bob aelod o staff.

### **RHEOLI MEWNBYNNAU**

- 3.16 Dim ond drwy gatiâu ac ardal ddadheintio, sy'n rhaid ei diffinio'n glir, yn unig y gall cerbydau gael mynediad i'r safle, a dim ond ar ôl i aelod o staff gadarnhau eu bod wedi cwblhau'r broses o'u dadheintio yn foddhaol y dylid caniatáu iddynt fynd i mewn.
- 3.17 Rhaid cadw cofnod llawn ar ffurf barhaol a hygyrch o bob cerbyd a gaiff fynediad i'r safle.
- 3.18 Rhaid i'r holl adar neu wyau a gaiff fynediad i'r safle fod naill ai o safle compartment arall dan yr un rheolaeth, neu'n amodol ar eu gosod mewn cwarantîn ar wahân yn unol â'r protocol ysgrifenedig.
- 3.19 Rhaid cadw cofnodion symud llawn ar gyfer yr holl adar ac wyau a gymerir i'r safle, gan alluogi bod modd olrhain ffynhonnell pob un, ei symudiad o fewn y safle, a'i gyrchfan.
- 3.20 Rhaid cael porthiant o felinau'r Cwmni ei hun yn unig, a/neu gyflenwyr sydd â contract cyflenwi ysgrifenedig, manwl gyda'r Cwmni.
- 3.21 Rhaid i amodau cyflenwi'r porthiant sicrhau y caiff ei drin er mwyn dileu pathogenau, a'i ddiogelu rhag ei halogi drwy gydol y broses o weithgynhyrchu, trin, cludo a storio.
- 3.22 Ar y safle rhaid i'r porthiant gael ei storio mewn cynwysyddion wedi'u hamgau a'i ddsbarthu i'r adar drwy system ddiogel sy'n sicrhau nad oes tyllau a allai roi mynediad i gnoflod neu blâu eraill, a dim gollyngiad a allai ddenu adar neu blâu eraill.
- 3.23 Rhaid i ddŵr gael ei gyflenwi'n uniongyrchol o'r prif bibellau cyhoeddus, neu gael ei brofi rheolaidd a'i drin â thriniaeth firwleiddio.
- 3.24 Dim ond drwy fewnfeydd ac allanfeydd sydd â sgriniau neu ddyfeisiadau eraill wedi'u gosod arnynt i atal adar gwyllt rhag cael mynediad y dylid awyru.

- 3.25 Dim ond gan gyflenwyr sydd â contract cyflenwi ysgrifenedig, manwl gyda'r Cwmni y dylid cael y deunydd sarn.
- 3.26 Rhaid i amodau cyflenwi'r deunydd sarn sicrhau y caiff ei diogelu rhag ei halogi drwy gydol y broses o'i gynhyrchu, ei drin, ei gludo a'i storio.
- 3.27 Rhaid i'r holl fewnbynau eraill i'r adar, fel grit calsiwm, fod yn amodol ar yr un rheolau â'r deunydd sarn o ran eu diogelu rhag eu halogi.
- 3.28 Rhaid diheintio offer y gellir eu defnyddio eto (e.e. hambyrddau a throlïau wyau) cyn iddynt gael mynediad i'r safle, a'u cludo yng ngherbydau'r Cwmni sydd wedi'u diheintio, a'u storio dan amodau lle y cânt eu diogelu rhag unrhyw risg o gael eu halogi.
- 3.29 Rhaid i unrhyw offer arall sy'n gorfod cael eu cludo i'r safle (e.e. cartonau a rhanwyr tafladwy i gludo cywion diwrnod oed o'r deorfeydd) fod naill ai'n newydd, yn lân a heb eu defnyddio, neu bydd yn rhaid eu diheintio'n effeithiol cyn iddynt gael mynediad.
- 3.30 Dylai'r cilfachau derbyn sy'n derbyn unrhyw lwyth gael eu diogelu'n briodol rhag mynediad damweiniol adar neu gludwyr heintiau eraill posibl. Pryd bynnag y bydd y drysau ar agor mae'n rhaid bod aelod o staff yn bresennol bob amser.

### **RHEOLI ALLBYNNAU**

- 3.31 Dylai'r cilfachau llwytho allan gael eu diogelu'n briodol rhag mynediad damweiniol adar neu gludwyr heintiau eraill posibl. Pryd bynnag y bydd y drysau ar agor mae'n rhaid bod aelod o staff yn bresennol bob amser.
- 3.32 Os na chaiff y safle ei rhedeg ar sail i mewn gyda'i gilydd, allan gyda'i gilydd, mae'n rhaid cael rhagofalon priodol i gadw siediau ar wahân pan gânt eu diboblogeiddio, ac i sicrhau na all timau a cherbydau dal gyflwyno heintiau (yn unol â'r protocol rheoli).
- 3.33 Rhaid i'r holl wastraff anifeiliaid biolegol neu fwytadwy gael ei gadw mewn cynhwysydd wedi'i gau nes ei fod wedi ei losgi neu wedi gadael y safle, er mwyn sicrhau na fydd yn denu adar gwyllt neu blâu eraill.

### **MONITRO ARFEROL**

- 3.34 Rhaid cynnal monitro arferol naill ai gan yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol ar gyfer ffliw adar a chlefyd Newcastle, neu mewn labordy sydd wedi'i achredu'n swyddogol ar gyfer y profion hynny dan ISO 17025.
- 3.35 Rhaid cyflawni monitro serolegol ar heidiau dodwy o leiaf unwaith bob 4 wythnos ar gyfer gwrthgyrff ffliw adar.

- 3.36 Rhaid naill ai frechu heidiau rhag clefyd Newcastle, neu eu monitro'n serolegol ar amserlen debyg i'r un ar gyfer fflw adar.
- 3.37 Rhaid cyfeirio unrhyw ganlyniadau serolegol amhendant neu bositif am y naill glefyd neu'r llall i'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol ar unwaith er mwyn cadarnhau'r profion.
- 3.38 Rhaid cofnodi data cynhyrchu a marwolaethau (neu ddata deor a hyfywedd mewn deorfeydd) yn rheolaidd, a dylid rhoi gwybod am unrhyw wyriad sylweddol neu anesboniadwy o'r cyfraddau a ddisgwylir yn ddi-oed i'r awdurdod cyfrifol yn y Cwmni ar gyfer yr archwiliad priodol.
- 3.39 Rhaid cadw cofnod ar ffurf barhaol a hygyrch am bob meddyginiaeth a roddir am ba achos bynnag, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth genedlaethol.

### **PWYNTIAU CYFFREDINOL**

- 3.40 Rhaid cael rhaglen rheoli cnofilod.
- 3.41 Rhaid diheintio wyau ar unwaith ar ôl eu casglu.
- 3.42 Rhaid i'r holl ddiheintyddion a ddefnyddir ar y safle fod wedi cael eu cymeradwyo gan Defra.
- 3.43 Rhaid i'r cwmni gael cynlluniau wrth gefn yn eu lle ar gyfer gwella bioddiogelwch a gwyliadwriaeth mewn sefyllfaoedd o risg uwch, e.e. pan fo'r safle'n rhan o barth diogelwch neu wylidwriaeth wedi'i gymhwyso o dan ddeddfwriaeth yr UE.
- 3.44 Os oes amheuaeth neu gadarnhad o achos o fflw adar neu glefyd Newcastle ar unrhyw safle compartment wedi'i gymeradwyo, bydd deddfwriaeth genedlaethol sy'n rheoli clefydau hysbysadwy yn dod i rym ar unwaith, a bydd yr holl allforion o'r safle hwnnw yn cael eu hatal yn ddi-oed.